Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Cwm Derwen**

**Beech Grove**
**Oakdale**
**Coed-duon**
**NP12 0JL**

**This report is also available in English**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

19/10/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Ynglŷn â Chylch Meithrin Cwm Derwen

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Cylch Meithrin Cwm Derwen |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Mewnosod â llaw<br>8 Mehefin 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Arolygiad a gynhaliwyd yn ystod y pandemig COVID-19 yw hwn. Felly, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn rhoi pwyslais cryf ar blant yn rheoli eu chwarae a'u dysgu eu hunain. Mae'r plant yn ymgartrefu'n dda ac maent yn hapus ac yn edrych ymlaen at fynychu'r cylch meithrin. Mae cyfleoedd ganddynt i ddysgu a dod yn annibynnol a datblygu eu sgiliau trwy amrediad o brofiadau a chwarae o ansawdd uchel. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau agos â staff a phlant eraill, sydd yn gwneud iddynt deimlo'n saff a diogel.

Mae'r staff yn broffesiynol ac â chymwysterau addas ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae’r staff wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau newydd ar waith yn effeithiol mewn ymateb i COVID-19. Maent yn cynllunio ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n ddiddorol ac yn ysgogol ac yn ysgogi dychymyg y plant. Mae'r staff yn cadw cofnodion effeithiol o gynnydd a datblygiad y plant.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac wedi'i drefnu'n dda iawn. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas, gan gwblhau asesiadau risg a gwiriadau dyddiol. Mae amrywiaeth dda o deganau, adnoddau a phrofiadau, dan do ac yn yr awyr agored, yn hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth gref yn y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn brofiadol ac yn gwrando ar y plant, y rhieni a'r staff, gan eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ac yn mwynhau eu gwaith. Maent yn derbyn hyfforddiant a chyfleoedd datblygu da er mwyn cadw eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gyfredol. Mae'r holl bolisïau, gweithdrefnau a chofnodion ar waith. Mae'r rhieni'n llawn canmoliaeth ac yn canmol y staff a'r gofal y mae eu plant yn ei dderbyn.

Defnyddir y Gymraeg trwy gydol y sesiynau ac mae'r plant yn defnyddio'r iaith yn hyderus.

## Llesiant

Gwrandewir ar y plant, sy’n gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau. Maent yn dewis eu gweithgareddau'n rhydd ac yn gwybod y byddant yn derbyn cymorth neu gefnogaeth os ydynt yn gofyn amdani. Mae'r plant yn ymwybodol o'r arferion dyddiol ac yn gwybod beth i’w ddisgwyl yn ystod y sesiynau. Er enghraifft, maent yn barod ar gyfer amser cylch ac yn cymryd rhan wrth ganu eu hoff ganeuon, sy'n gyfarwydd iddynt. Mae hyn yn darparu sicrwydd i'w diwrnod ac yn helpu'r plant i ymgartrefu'n hawdd. Maent yn cael eu hannog i fynegi eu hoffterau a'u barn ac yn derbyn cymorth i gymryd rhan a mynegi eu hunain. Mae'r plant yn teimlo'n hyderus ac yn datblygu hunan-barch da, gan ddangos bodlonrwydd ar yr amrediad eang o adnoddau dysgu a chwarae sydd ar gael iddynt. Gosododd un plentyn fwrdd ar gyfer amser te cyn gynted ag y cyrhaeddodd, gan wahodd pobl i ymuno â hi.

Mae plant yn hapus a diogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r sesiynau ymgartrefu'n cael eu llywio gan anghenion y plentyn a'i deulu ac mae modd eu hymestyn os oes angen. Mae'r plant yn dechrau meithrin cyfeillgarwch yn unol â’u hoedran a cham datblygu. Mae ganddynt deimladau amlwg o hoffter gyda'r staff, sy'n deall eu hanghenion ac yn darparu gofal cyson. Maent yn hyderus wrth fynd at y staff am gysur a sicrwydd yn ôl yr angen. Maent yn eistedd yn agos at y staff yn dewis straeon a chanu caneuon, yn cymryd rhan ac yn mwynhau'r gweithgareddau, sy'n ysgogol ac yn eu cyffroi. Maent yn arbennig o hoff o'r gêm o ddewis enw anifail allan o het a gwneud y synau sy'n cyfateb i'r anifeiliaid hynny. Mae'r plant yn dechrau rhannu gyda'i gilydd ac yn cynnig help, gan dacluso ar ôl chwarae gemau a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Maent yn awyddus i ddangos a siarad am eu gweithgareddau a rhannu gwybodaeth am eu teuluoedd a'u diddordebau.

Mae'r plant yn mwynhau ymarfer corff ac awyr iach yn rheolaidd ac yn gwerthfawrogi'r amser a geir yn yr awyr agored. Mae ganddynt gyfleoedd da iawn ar gyfer chwarae egnïol a llawn dychymyg. Mae amrediad da o weithgareddau chwarae rhan, fel paratoi bwyd a diodydd yn y gornel gartref a gwisgo dillad arall, ar gael ar bob adeg. Mae'r plant yn cael eu hannog i fod yn chwilfrydig ac i ymchwilio i'r adnoddau y maent yn eu defnyddio. Roedd y plant yn chwilfrydig am y bwmpen fawr yr oeddent yn bwriadu ei cherfio i wneud llusern a thyfu'r hadau. Buont yn siarad am deimlad arwyneb y bwmpen a pha mor drwm ydoedd. Mae gweithgareddau chwarae anniben gyda thywod, paent a dŵr yn rhoi'r cyfle i'r plant fod yn greadigol a chael hwyl.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu sgiliau annibyniaeth sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn golchi eu dwylo yn ôl yr angen ac yn deall y drefn o dacluso wrth newid gweithgareddau. Mae'r plant yn helpu i osod y byrddau ar gyfer byrbrydau ac yn rhoi cynnig ar arllwys eu diodydd eu hunain ac, fel arfer, maent yn dewis eu bwyd eu hunain yn ystod amser byrbryd. Maent yn mwynhau'r ymdeimlad o gyflawniad sy'n perthyn i gwblhau'r tasgau hyn. Mae bron pob un plentyn yn deall yr angen i gydymffurfio â'r rheolau ynghylch ymddygiad sy'n dderbyniol yn gymdeithasol ac yn dangos caredigrwydd a pharch tuag at eraill.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach mewn ffordd effeithiol. Mae gweithdrefnau diogelu trylwyr ar waith sy'n hyrwyddo lles y plant. Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldeb am fod yn wyliadwrus ac yn glir am y prosesau sydd i'w dilyn wrth ddelio ag unrhyw bryderon. Maent yn derbyn hyfforddiant diogelu ac yn cael yr holl wybodaeth berthnasol ddiweddaraf. Cynhelir ymarferion tân rheolaidd i sicrhau bod y staff a'r plant yn ymwybodol o sut i adael yr adeilad yn ddiogel ac mae'r rhain yn cael eu cynllunio a'u cofnodi'n briodol. Mae'r staff yn cofnodi pob un damwain a digwyddiad mewn manylder ac fe'u gwerthusir gan y unigolyn â gofal ac fe'u llofnodir gan rieni. Mae'r staff hefyd yn cofnodi pob un damwain sy'n digwydd gartref. Mae'r holl staff wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ac yn hyderus wrth ymdrin â mân anafiadau.  Rhennir gwybodaeth sy'n ymwneud ag alergeddau'r plant gyda staff ac mae'n hygyrch iddynt. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei diweddaru'n rheolaidd yn ôl yr angen gyda gwybodaeth gan rieni ac mae'r plant yn cael eu monitro'n ofalus. Mae gweithdrefn ar gyfer rhoi meddyginiaeth i blant sy'n cynnwys derbyn caniatâd gan rieni ar gyfer pob dos. Mae'r staff yn darparu byrbrydau iachus yn ystod y dydd ac mae dŵr yfed ar gael bob amser.

Mae'r staff yn rhyngweithio â'r plant mewn modd caredig a gofalgar. Maent yn gyson yn eu hagwedd ac yn ystyriol o oedran a chamau datblygu'r plant wrth fynd ati i reoli materion ymddygiad. Mae'r staff yn annog y plant i fynegi eu barn a'u hoffterau ac yn canmol pob un o'u hymdrechion a'u cyflawniadau. Mae'r arferion dyddiol yn galluogi plant i dreulio eu hamser yn cymryd rhan mewn gweithgareddau diddorol ac ysgogol sydd yn eu bodloni. Mae staff yn defnyddio llais meddal i dynnu sylw plant sy'n rhwystredig neu'n ofidus ac yn eu cysuro pan fyddant yn ofidus. Mae'r staff yn esiamplau da cadarnhaol ac yn rheoli pob un o'u rhyngweithiadau'n briodol.

Mae'r staff yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol. Mae gweithwyr allweddol yn defnyddio arsylwadau i olrhain cynnydd y plant ac yn cynllunio gweithgareddau i gyflawni canlyniadau penodol. Mae'r staff yn mynd ati i annog y plant i gymryd rhan mewn sgyrsiau gyda nhw ac i rannu unrhyw newyddion neu wybodaeth yn ystod amser cylch ac amser byrbryd ac wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r ffotograffau o'r gweithgareddau ac enghreifftiau o waith plant sy'n cael eu harddangos yn dangos y sgiliau a gyflawnwyd gan y plant. Addasir gweithgareddau er mwyn iddynt fod yn hygyrch i blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gweithwyr allweddol yn trefnu cymorth oddi wrth asiantaethau allanol er mwyn datblygu strategaethau i reoli rhai materion ymddygiad ac mae hyn yn llwyddiannus. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi'r bartneriaeth hon. Mae'r staff yn sicrhau bod rhieni'n cael gwybod am gynnydd, cyflawniadau a datblygiadau eu plentyn.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn saff. Mae'r lleoliad wedi'i leoli o fewn ystafell ddosbarth ar dir ysgol gynradd. Mae'r adeilad yn cynnwys prif ystafell ganolog, cyntedd, a thoiledau i blant ac oedolion. Mae'r gwasanaeth yn gallu defnyddio ystafell gyfagos pan fydd ar gael. Cynhelir gwiriadau diogelwch dyddiol gan y staff i nodi a gwaredu ag unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant. Mae cofrestri'n cofnodi'r amseroedd y mae'r plant yn cyrraedd ac yn gadael y safle. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn monitro'r broses o gofrestru ac allgofnodi wrth gyrraedd a gadael y gwasanaeth yn agos i sicrhau y cynhelir cymarebau staff ar bob adeg. Mae asesiadau risg trylwyr ar waith ar gyfer pob rhan o'r gwasanaeth ac mae'r rhain yn cynnwys diogelwch tân, COVID-19, a holl weithgareddau'r plant. Maent yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn rheolaidd gan yr unigolyn â gofal. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnodion o'r holl ymwelwyr â'r lleoliad, ond nid oedd hawl gan ymwelwyr i fynd i fewn i'r adeilad yn ystod y pandemig COVID-19 oni bai fod hyn yn hanfodol. Mae awdurdodau'r ysgol yn sicrhau y cynhelir gwiriadau cynnal a chadw cyson a rheolaidd ar gyfer yr adeilad a'r offer yn rheolaidd, gan ddarparu cofnodion o'r holl brofion diogelwch i'r gwasanaeth yn ôl yr angen.

Mae'r amgylchedd yn lân ac yn groesawgar. Mae'r staff yn glanhau'r teganau a'r offer yn gyson trwy gydol y dydd. Mae'r staff a gyflogir gan awdurdodau'r ysgol yn glanhau'r adeilad yn drylwyr bob nos. Mae'r gofod yn groesawgar ac yn darparu ardaloedd golau a llachar i blant eu harchwilio. Mae amrywiaeth eang o gyfarpar o ansawdd dda ar gael ar gyfer pob grŵp o blant sy'n hawdd ei gyrchu, gan hyrwyddo annibyniaeth. Mae'r adnoddau'n briodol ar gyfer cam datblygu'r plant ac yn ysgogi eu chwilfrydedd a'u gallu i ddarganfod. Mae'r plant yn dysgu am agweddau ar ddiwylliannau gwahanol a gwelsom arddangosfa o waith celf y plant i ddathlu Diwali.

Mae'r ardal awyr agored wedi'i chynllunio'n dda ac yn efelychu safon a maint yr adnoddau sydd ar gael y tu mewn i'r lleoliad. Mae nifer o ardaloedd ar wahân sy'n darparu cyfleoedd a phrofiadau gwahanol i'r plant yn yr awyr agored. Mae nifer o ardaloedd dan do sy'n rhoi cysgod. Mae hyn yn cynnwys cegin fawr yn yr awyr agored gyda bwrdd a chadeiriau. Mae'r plant yn mwynhau garddio a phlannu ffrwythau a llysiau ac eistedd ymhlith y blodau y maent yn eu tyfu yn ystod misoedd yr haf. Mae'r ardal awyr agored yn darparu profiadau a chyfleoedd da iawn i'r plant fwynhau chwarae egnïol ag adnoddau naturiol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn fedrus ac yn brofiadol ac yn rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol yn unol â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae datganiad o ddiben clir sy'n darparu darlun manwl gywir o'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn rhedeg. Mae hwn yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen i adlewyrchu unrhyw newidiadau. Mae'r unigolyn â gofal yn cadw mewn cysylltiad â'r unigolyn cyfrifol a'r pwyllgor rheoli i gyfnewid gwybodaeth yn ôl yr angen. Mae'r unigolyn â gofal yn cyflwyno sesiynau goruchwylio rheolaidd i'r staff a hefyd yn cynnal arsylwadau ar eu hymarfer. Nod hwn yw gwella safon y gofal a datblygiad proffesiynol gweithwyr unigol. Nid yw'r unigolyn â gofal yn derbyn goruchwyliaeth ffurfiol gyda'r unigolyn cyfrifol, fel sy’n ofynnol, ar hyn o bryd. Mae'r unigolyn â gofal yn cael cefnogaeth gan bartneriaid asiantaethau eraill ac yn derbyn adborth ac arweiniad gan yr unigolion hyn os oes angen.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gweithio'n galed i ddarparu gofal o ansawdd i'r plant a'u teuluoedd. Mae'r tîm o staff yn frwdfrydig, yn uchel eu cymhelliant, ac yn mwynhau eu gwaith. Mae'r unigolion o fewn y tîm yn ategu ei gilydd ac yn cydweithio'n dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal amgylched trefnus ac mae'n hawdd cyrchu'r holl ddogfennau, sydd mewn trefn dda. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau ar waith, maent yn cael eu diweddaru'n gyson, ac maent yn cynnwys y wybodaeth ofynnol. Mae gwiriadau priodol ar waith i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant cyn iddynt ddechrau eu swyddi. Mae digonedd o staff cymwysedig a phrofiadol i sicrhau bod y plant yn derbyn gofal da bob amser.

Mae diwylliant cryf o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn bodoli o fewn y lleoliad. Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant diogelu, cymorth cyntaf a diogelwch bwyd yn ogystal ag amrediad o ddysgu ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys y cwricwlwm addysg newydd yng Nghymru a'r Cod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd i Gymru. Mae'r adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal yn ystyried barn y rhieni, y plant a'r staff. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn awyddus i wella ansawdd y gwasanaeth yn barhaus ac mae cynllun gweithredu yn amlinellu'r gwaith sydd wedi cael ei gynllunio.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Yr unigolyn cyfrifol i ddarparu goruchwyliaeth ffurfiol a rheolaidd i'r unigolyn â gofal.

| Meysydd i'w gwella a chamau gweithredu yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Cyflawnwyd |
| --- |

| Meysydd i'w gwella a chamau gweithredu yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Ni chyflawnwyd | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd lle mae angen gweithredu ar unwaith | |
| --- | --- |
| Dim | |

| Meysydd y mae angen eu gwella | |
| --- | --- |
| Dim | |

**Dyddiad cyhoeddi** 16/12/2021